



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2019 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: **Rhagfyr 2019**

Cyfeirnod y ddogfen: 1650A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Gabrielle Smith, Tracy Veale a Richard Harries a Dave Thomas.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol 6

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynglŷn â chywirdeb datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 2018-19 ac ynglŷn â'u paratoi'n briodol 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 9

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Mae'r Bwrdd yn effeithiol ar y cyfan o ran cynnal ei fusnes ac mae wedi gwneud newidiadau allweddol i weithrediad pwyllgorau ond mae cyflymder gwaith ar sicrwydd y bwrdd a risg wedi arafu, mae heriau o ran perfformiad yn parhau, ac ni adroddir yn rheolaidd eto ar brofiad a deilliannau cleifion 10

Mae cynllunio strategol yn dal i fod yn gadarn ond mae cyfle i gryfhau agweddau ar adrodd yn ffurfiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig 11

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yn gadarn ar y cyfan, ond mae'n hanfodol cyflawni arbedion i fantoli'r cyfrifon ariannol 11

Mae heriau o ran y gweithlu'n dal i fodoli, er bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar feysydd allweddol, megis recriwtio a chadw, absenoldeb oherwydd salwch a llesiant cyflogeion 12

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd tuag at wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nyluniad gwasanaethau ac mae'n amlwg wedi ei hystyried wrth ddatblygu'r gwasanaeth Connect 12

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cynnydd cadarnhaol o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd gan archwiliadau blaenorol ond mae cyfle i sicrhau gwelliannau pellach 13

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio	17
Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol	18

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2019. Fe wnes y gwaith hwnnw i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - fy argyhoeddi fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
 - fy argyhoeddi fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.
- 2 Rwyf wedi nodi fy nghanfyddiadau mewn negeseuon allweddol dan y penawdau canlynol:
 - Archwiliad o'r Cyfrifon
 - Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau
- 3 Rwyf wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ar y Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodedd o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau mwy manwl hyn, y ceir rhestr ohonynt yn [Atodiad 1](#).
- 4 Mae [Atodiad 2](#) yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2019.
- 5 Mae [Atodiad 3](#) yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2019 a sut yr ymdriniwyd â hwy drwy'r archwiliad.
- 6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Fe gyflwynon ni'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Chwefror 2020. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd a bydd pob aelod yn cael copi. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#) ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.
- 7 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio y mae fy nhîm wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf.

Negeseuon allweddol

Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol

- 8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir, ac ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i o'r cyfrifon. Rwyf felly wedi cyhoeddi barn ddiamod ynglŷn â'r modd y cawsant eu paratoi.
- 9 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli ei gyfrifon ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn ei gyfrifon ar gyfer 2018-19.
- 10 Gan bod y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r cyfrifon ariannol a bod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ac nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn haeddu cael eu hamlygu, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

- 11 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yn y Bwrdd Iechyd wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:
 - Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda ar y cyfan ond nid yw risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol wedi cael eu disgrifio a'u dogfennu'n glir eto mewn fframwaith sicrwydd bwrdd. Mae cyfle i wella agweddau ar reoli risg, ac i gynyddu gweithgarwch adrodd ar brofiad cleifion a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Hefyd, ceir heriau sylweddol o ran perfformiad a risg gynyddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â mantoli'r cyfrifon ariannol.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nyluniad gwasanaethau ac mae'n amlwg wedi ei hystyried wrth ddatblygu Connect.
 - Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cynnydd cadarnhaol o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd mewn archwiliadau blaenorol ond mae cyfle i sicrhau gwelliannau pellach.
- 12 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol

- 13 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2018-19. Trwy gyfrwng y dogfennau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian. Mae paratoi'r datganiadau'n elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.
- 14 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynglŷn â chywirdeb datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 2018-19 ac ynglŷn â'u paratoi'n briodol

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir, ac ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i o'r cyfrifon.

- 15 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ar 26 Ebrill 2019, yn unol ag amserlen gytunedig Llywodraeth Cymru.
- 16 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu'r broses cyfrifon ac archwilio'n rhedeg yn esmwyth gydag ymgysylltiad ardderchog gan Dîm Cyllid y Bwrdd Iechyd. Canfu fy nhîm fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn sylweddol ac yn hawdd i'w deall. Daethom i'r casgliad bod polisiau ac amcangyfrifon cyfrifyddu'n briodol a bod datgeliadau yn y datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn eglur. Dim ond peth oedi a fu cyn derbyn gwybodaeth ategol gyflawn am yr adroddiad ar gydabyddiaeth ariannol. Heblaw am hyn, cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd arnom yn ein gwaith.
- 17 Cyfarfuom yn rheolaidd â Thîm Cyllid y Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad terfynol i adolygu cynnydd a chlirio unrhyw faterion yn codi mewn modd prydlon. Fe wnaethom hefyd barhau i ddatblygu ein dull archwilio a chynnal profion archwilio cynnar ar drafodion 'yn ystod y flwyddyn' lle bynnag yr oedd yn bosibl. Fe baratôdd y Tîm Cyllid gynllun cau i lawr manwl ar gyfer 2018-19 a oedd yn ymgorffori ein gofynion archwilio a manylion y papurau ategol. Fe barhaodd y dull hwn i gryfhau'r broses o gynhyrchu'r datganiadau ariannol ac fe helpodd i gydymffurfio â'r amserlen glirio dynn. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r broses a'r profiadau eleni i nodi unrhyw feysydd lle gallwn

fynd ati ymhellach i ddatblygu a mireinio'r gweithdrefnau ac i sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn gallu cael eu cario ymlaen i 2019-20.

- 18 Fe wnaethom nodi bod y tîm Archwilio Mewnol, yn ystod y flwyddyn, wedi adrodd ar nifer o welliannau mewn systemau, yr oedd yn ofynnol i reolwyr weithredu arnynt ar unwaith. Fe wnaethom ystyried y gwendidau hyn wrth gynllunio ein dull archwilio.
- 19 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe nododd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 28 Mai 2019. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnn.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd ac yn darparu sylwadau arnynt.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Camddatganiadau nas cywirwyd	Ni chafodd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd eu canfod yn y datganiadau ariannol. Lle canfuwyd camddatganiadau cafodd y rhain eu cywiro gan y rheolwyr.
Camddatganiadau a gywirwyd	Roedd nifer o fân gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod angen eu dwyn i'ch sylw fel rhan o'ch cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol.
Materion arwyddocaol eraill.	<p>Nid oedd gennym unrhyw bryderon ynghylch yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol</p> <p>Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol a drafodwyd ac y gohebwyd yn eu cylch gyda'r rheolwyr yr oedd angen i ni eu gwneud yn hysbys i chi.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion o arwyddocâd i'r drosolwg ar y broses adrodd ariannol y mae angen i ni eu gwneud yn hysbys i chi.</p> <p>Ni chanfuom unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion eraill yr oedd yn ofynnol yn benodol yn ôl safonau archwilio ein bod yn eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.</p>

- 20 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2019 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 21 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Bwrdd lechyd wedi cael ei gwblhau hefyd. Cyflwynwyd fy adroddiad ar y datganiadau ariannol i'r Bwrdd ar 27 Tachwedd 2019. Cyhoeddais adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol ar 9 Rhagfyr 2019.

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd lechyd.

Fe wnaeth y Bwrdd lechyd fantoli ei gyfrifon ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn ei gyfrifon ar gyfer 2018-19.

- 22 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd lechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo'r pwerau i dderbyn yr incwm y mae wedi'i dderbyn ac ysgwyddo'r gwariant y mae wedi'i ysgwyddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad oes pwerau gan y Bwrdd lechyd i'w derbyn neu eu hysgwyddo.

Gan bod y Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon a bod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy a chan nad oedd unrhyw faterion eraill y gellid cyfiawnhau eu hamlygu, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd lechyd.

- 23 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd lechyd ochr yn ochr â'm barnau lle'r wyf yn dymuno amlygu materion. Gan bod y Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd ariannol: sef mantoli'r cyfrifon (fel a nodir uchod) a bod â chynllun tair blynedd cymeradwy; a chan nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau adroddiad, ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.
- 24 Fel a nodir uchod, mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19 ac fe nododd wagedd argadwedig o £530,000 ar gyfer y cyfnod hwn.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

- 25 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'u hadnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- cwblhau asesiad strwythuredig o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llywodraethu ar y cyfan, cynllunio strategol, rheoli adnoddau ariannol, a rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu;
 - adolygu'r defnydd o adnoddau yn benodol ar gyfer gofal sylfaenol a chodio clinigol; ac
 - adolygu'r cynnydd yn erbyn fy argymhellion ynghylch rheoli meddyginiaethau mewn ysbytai aciwt, gwasanaethau y tu allan i oriau gan feddygon teulu a gwasanaethau nyrsys ardal.
- 26 Hefyd, er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rwyf wedi gwneud gwaith i adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith.
- 27 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

Mae'r Bwrdd yn effeithiol ar y cyfan o ran cynnal ei fusnes ac mae wedi gwneud newidiadau allweddol i weithrediad pwyllgorau ond mae cyflymder gwaith ar sicrwydd y bwrdd a risg wedi arafu, mae heriau o ran perfformiad yn parhau, ac ni adroddir yn rheolaidd eto ar brofiad a deilliannau cleifion

- 28 Fe wnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig archwilio trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd eglur. Fe wnes i hefyd ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad. Canfûm fel a ganlyn.
- 29 Mae gan y Bwrdd drefniadau sy'n effeithiol ar y cyfan i roi cymorth i gynnal busnes ac mae'n argoeli y bydd newidiadau i weithrediad pwyllgorau'n gwella effeithiolrwydd y Bwrdd ar y cyfan. Mae mecanweithiau sicrwydd i gefnogi llywodraethu da'n gadarn ar y cyfan. Nid yw risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol wedi cael eu disgrifio'n glir, mae datblygiad fframwaith sicrwydd y bwrdd a ddogfennir wedi arafu, ac mae angen i drefniadau rheoli risg ac ansawdd y gofrestr risg gorfforaethol gael eu gwella ymhellach. Mae amseroldeb ac ansawdd ymatebion i gwynion a phryderon yn gwella ond mae angen cynnydd pellach, ac ni adroddir yn rheolaidd ar brofiad a deilliannau cleifion. Mae gwelliannau i drefniadau archwilio clinigol bellach ar y gweill. Fodd bynnag, mae heriau arwyddocaol o ran perfformiad gweithredol yn dal i fodoli yn enwedig amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

30 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dal i gael yr offeryn tracio i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae'r cynnydd yn cael ei ystyried ym mhob cyfarfod gyda chyflymder y cynnydd yn cael ei herio'n rheolaidd. Tan yn ddiweddar dim ond argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn flaenoriaeth uchel yr oedd y Pwyllgor yn eu monitro, ond yn ddiweddar mae wedi adfer argymhellion sy'n flaenoriaeth ganolig i fonitro cynnydd tuag at gwblhau yn well. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da i fynd i'r afael ag argymhellion fy asesiad strwythuredig yn 2018 gyda gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i gwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill erbyn mis Mawrth 2020.

Mae cynllunio strategol yn dal i fod yn gadarn ond mae cyfle i gryfhau agweddau ar adrodd yn ffurfiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig

- 31 Fe wnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig ystyried sut y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad a pha mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer eu cyflawni a'u monitro. Caiff fy nghanfyddiadau eu nodi isod.
- 32 Mae'r dull cynllunio'n dal i fod yn gadarn gyda gofynion o ran y gweithlu a gofynion ariannol yn rhan annatod o'r broses. Mae trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni cynlluniau strategol wedi hen ennill eu plwyf ond bu oedi cyn adrodd yn ffurfiol ar y cynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ac mae cyfle i egluro'r mesurau lliniaru risg y mewn perthynas â Dyfodol Clinigol a chysylltu cynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn well â blaenoriaethau sy'n cael effaith fawr.

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yn gadarn ar y cyfan, ond mae'n hanfodol cyflawni arbedion i fantoli'r cyfrifon ariannol

- 33 Fe wnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig archwilio'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd lechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Fe wnes i hefyd asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Caiff fy nghanfyddiadau eu nodi isod.
- 34 Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio ariannol a monitro perfformiad ariannol yn gadarn ar y cyfan ac mae rheolaethau ariannol yn foddhaol. Mae gan y Bwrdd lechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol, ond mae pwysau ariannol cynyddol yn creu risg o ddiffyg oni bai y cyflawnir arbedion.
- 35 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n anghywir. Ym mis Ionawr 2019, cafodd y Bwrdd lechyd fwy na 5,000 o bariadau data trwy gymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol ac fe flaenoriaethodd y pariadau data risg uchel ar gyfer eu hadolygu ac ymchwilio'n brydlon iddynt. Fe

wnaeth ddefnydd da o'r Fenter Twyll Genedlaethol ac erbyn mis Rhagfyr roedd y rhan fwyaf o bariadau risg uchel a sampl o bariadau eraill wedi cael eu hadolygu.

Mae heriau o ran y gweithlu'n dal i fodoli, er bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar feysydd allweddol, megis recriwtio a chadw, absenoldeb oherwydd salwch a llesiant cyflogeion

- 36 Fe wnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig archwilio'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau bod ei weithlu'n cael ei reoli'n dda ac yn gynhyrchiol. Fe wnes i hefyd asesu trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu a champau gweithredu i ymgysylltu â staff a gwrandio arnynt a diwallu anghenion o ran llesiant. Caiff fy nghanfyddiadau eu nodi isod.
- 37 Er bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn ystyfnig o uchel, mae cymorth wedi'i dargedu'n lleihau'r cyfraddau mewn rhai ardaloedd. Ceir rhaglen gynhwysfawr o waith i recriwtio a chadw staff ac ailddylunio'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae dibyniaeth barhaus ar locymau a staff asiantaeth i gyflenwi pan fo swyddi gwag, absenoldeb oherwydd salwch a phwysau gweithredol yn golygu bod gwariant ar staff dros dro'n codi. Mae cyfraddau cydymffurfio â'r broses arfarnu, hyfforddiant statudol a gorfodol a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn gwella, er yn araf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i ofalu am iechyd a llesiant ei staff ac mae wedi rhoi ystod o fentrau ar waith i atal a chwtogi ar absenoldebau a chefnogi llesiant yn fwy cyffredinol. Mae mentrau'n cynnwys 'ymlacio yn y capel' lle gall staff gael tylino'r gwddf neu'r ysgwyddau yn ystod eu hawr ginio, gwasanaethau cwnsela neu wrando mwy traddodiadol, cymorth rhwng cymheiriaid ar gyfer materion megis bwlio a chyngor a chymorth ynghylch llesiant ariannol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd tuag at wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nyluniad gwasanaethau ac mae'n amlwg wedi ei hystyried wrth ddatblygu'r gwasanaeth Connect

- 38 Fe adolygais i ba raddau mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (DC) a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol. Fe wnaeth fy ngwaith ystyried sut y mae'r egwyddor DC yn cael ei gwreiddio mewn trefniadau craidd ac roedd yn cynnwys archwiliad o gam sy'n cael ei gymryd gan y Bwrdd Iechyd i gyflawni un o'i amcanion llesiant. Y cam a adolygwyd oedd dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu Connect, gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.
- 39 Mae gwaith yn mynd rhagddo i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn trefniadau a phrosesau craidd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adeiladu ar ei

drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw bwrdd rhaglen y Bwrdd Iechyd sy'n goruchwyllo gwaith i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant, na'r camau a gymerir i'w cyflawni. Nid oes trefn ffurfiol i adrodd ar gynnydd wrth y tîm gweithredol, tra bo adroddiadau i'r Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Llesiant yn cael eu cyflwyno'n anfyfyr.

- 40 Bu'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus o ran cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio Connect ac mae wedi adnabod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith hwn. Roedd gan y Bwrdd Iechyd ffocws hirdymor eglur wrth ddatblygu'r gwasanaeth. Mae gan Connect ffocws ataliol eglur gyda gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau lefelau digonol o gymorth yn y gymuned ac mae'n helpu i lunio dull systemau cyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod. Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda rhanddeiliaid niferus, yn fewnol ac yn allanol, wrth ddylunio Connect, yn ogystal â chynnwys darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wneud cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd ar adeg gynnar yn rhan o'r drefn arferol.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cynnydd cadarnhaol o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd gan archwiliadau blaenorol ond mae cyfle i sicrhau gwelliannau pellach

Er gwaethaf lefel uchel o gywirdeb, mae cyflawnrwydd codio'n fater sylweddol ac nid yw proffil data wedi'i godio a'r defnydd ohono i gefnogi gwelliant wedi cynyddu ers ein gwaith blaenorol. Er y gwnaed cynnydd rhesymol o ran rhoi ein hargymhellion blaenorol ar waith, mae rhai materion yn dal heb eu datrys

- 41 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Gellir ei ddefnyddio i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau a chynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth. Canfu fy adolygiad fod cywirdeb y data clinigol wedi'i godio'n dal i fod yn uchel, ond mae ffigyrau cyflawnrwydd wedi gwaethygu'n sylweddol ers 2017 gyda pherfformiad yn rheolaidd islaw'r targed. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol gyda'n hargymhellion blaenorol, ond mae materion o ran cofnodion meddygol, proffil isel codyddion clinigol, adrodd ar berfformiad codio ar lefel y Bwrdd a defnyddio data wedi'i godio i ategu gwelliant heb eu datrys eto.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan i fynd i'r afael â'm hargymhellion ar gyfer gwella'r modd y rheolir meddyginiaethau mewn ysbytai aciwt, gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu a gwasanaethau nyrsys ardal.

42 Yr ymyriad therapiwtig mwyaf cyffredin yn y GIG yw rhagnodi meddyginiaethau ac mae rheoli meddyginiaethau'n cwmpasu prynu cyffuriau, y prosesau a'r ymddygiadau sy'n dylanwadu ar y defnydd clinigol a chost-effeithiol o feddyginiaethau. Mae angen i feddyginiaethau cleifion gael eu rheoli'n dda i sicrhau'r driniaeth a'r adferiad gorau posibl ac i sicrhau gwerth am arian. Fe wnaeth fy ngwaith adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion yn 2015/16 ar gyfer gwella trefniadau a phrosesau corfforaethol i reoli meddyginiaethau, y gweithlu a'r cyfleusterau rheoli meddyginiaethau, prosesau a monitro gwasanaethau fferylliaeth. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i wella agweddau ar reoli meddyginiaethau mewn ysbysai aciwt, ond mae rhai argymhellion risg uchel yn dal heb gael eu rhoi ar waith, yn arbennig:

- mae wedi cymryd camau i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac mae'n gwneud ei ran i symud y rhaglen waith gydweithredol ar lefel Cymru gyfan i reoli meddyginiaethau yn ei blaen;
- gwnaed cynnydd da o ran rhoi'r argymhellion ynghylch y gweithlu fferylliaeth ar waith, er bod y Bwrdd Iechyd yn dal i fod â'r lefel isaf o ran staff fferylliaeth am bob 10,000 o bobl yng Nghymru;
- mae wedi gwneud rhai gwelliannau i gyfleusterau rheoli meddyginiaethau, ond mae problemau gyda storio mewn swmp ar dymheredd a reoleiddir yn dal i fodoli ac nid oes rhaglen archwilio ar gyfer meddyginiaethau i'w chwistrellu ar wardiau wedi cael ei rhoi ar waith eto;
- mae wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi argymhellion sy'n ymwneud â phrosesau rheoli meddyginiaethau ar waith, ond nid yw wedi datblygu cofrestr o ragnodwyr anfeddygol eto; a hefyd
- cymerwyd camau i wella'r broses o fonitro ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad fferylliaeth, a dysgu o gyfraddau ymyriadau diogelwch fferyllwyr, ond nid yw'r Bwrdd wedi cael adroddiad blynyddol ar reoli meddyginiaethau eto.

43 Mae gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu'n rhoi gofal iechyd i gleifion â phroblemau meddygol y mae angen rhoi sylw iddynt ar fyrder (ond nad ydynt yn achosion brys) y tu allan i oriau arferol meddygfeydd. Fe wnaeth fy ngwaith adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion yn 2017 ar gyfer cynnwys staff yn y broses o gynllunio gwasanaethau, gwella cymorth ar gyfer dysgu a datblygu, archwilio rhesymau dros forâl isel, gwella arweinyddiaeth glinigol a rheoli gweithredol, gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a hyfforddiant ar frysbenno dros y ffôn a gwerthuso'r estyniad i oriau practisiau meddygon teulu. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i wella agweddau ar wasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu, yn enwedig y canlynol:

- mae ystod o fecanweithiau ar gyfer cyfathrebu gyda staff y tu allan i oriau wedi'u sefydlu bellach;
- roedd yr adolygiad gan gymheiriaid o wasanaethau y tu allan i oriau'n gadarnhaol ynglŷn ag arweinwyr a rheolwyr ac fe nododd welliannau ers i'r tîm arwain gweithredol newydd gael ei sefydlu;

- mae trafodaethau rheolaidd gyda staff ynglŷn â datblygiad personol a chamau i feithrin diwylliant tîm ac ymddiriedaeth yn gwella morâl;
- cafodd cynllun oriau estynedig practisiau meddygon teulu ei adolygu a chanfuwyd ei fod yn gwella mynediad ond bod asesu gwerth am arian yn anos;
- mae wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn cael neges gyson ynglŷn â'r gwasanaeth y tu allan i oriau; ac
- nid yw meddygon teulu y tu allan i oriau'n brysbennu dros y ffôn mwyach gan bod y model gwasanaeth 111 newydd yn cynnwys trin galwadau a brysbennu clinigol yn y pen blaen.

44 Mae gan nyrsys ardal rôl hollbwysig o fewn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a hwythau'n darparu'r elfen gyffredin graidd o ofal nyrsio cymunedol ar gyfer oedolion 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Mae'r boblogaeth oedrannus gynyddol ynghyd ag arosiadau byrrach yn yr ysbyty a'r newid i drin mwy o gleifion, yn aml ag anghenion gofal cymhleth lluosog, yn y gymuned yn golygu bod ar wasanaethau nyrsys ardal angen gweithlu a gydgysylltir yn briodol, sydd ag adnoddau a sgiliau priodol ac a leolir yn effeithiol. Fe wnaeth fy ngwaith adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion yn 2015 ar gyfer egluro rôl a diben y gwasanaeth, dylanwadu ar y galw cynyddol ar ofal yn y gymuned a rheoli'r galw hwnnw, gwella'r modd y lleolir staff fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r galw, a chryfhau trefniadau monitro a reoli perfformiad. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'm hargymhellion ar gyfer gwella'r modd y rheolir gwasanaethau nyrsys ardal i raddau helaeth, yn enwedig y canlynol:

- bu cynnydd parhaus o ran integreiddio gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys nyrsio ardal;
- mae diben a chylch gorchwyl y gwasanaeth nyrsys ardal wedi cael eu hegluro ac mae manyleb y gwasanaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol;
- cytunwyd ar feini prawf a phrosesau atgyfeirio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol;
- mae llwythi achosion y cael eu hadolygu'n wythnosol ac mae gwaith i baru adnoddau'n well â'r galw yn awr ac yn y dyfodol yn mynd rhagddo;
- mae'n dal i fod yn gyfrannwr gweithredol at y rhaglen staff nyrsio genedlaethol i ddatblygu offeryn cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i seilio ar anghenion cleifion;
- ceir cydymffurfiaeth dda â'r egwyddorion staffio interim ar gyfer nyrsys ardal; ac
- mae cyflwyno'r offeryn amserlennu'n ei gwneud yn bosibl monitro perfformiad yn erbyn set o ddangosyddion y cytunwyd arnynt yn lleol a meincnodi gyda chyfoedion.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2019.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol	Mai 2019
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2019
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Codio Clinigol	Mawrth 2019
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Tachwedd 2019
Rheoli Meddyginiaethau mewn Ysbytai Aciwt: Diweddariad ar Gynnydd	Tachwedd 2019
Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu: Diweddariad ar y Cynnydd	Rhagfyr 2019
Asesiad Strwythuredig 2019	Rhagfyr 2019
Nyrsys Ardal: Diweddariad ar y Cynnydd	Rhagfyr 2019
Arall	
Cynllun Archwilio 2019	Ebrill 2019

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill

Ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda bras amcan o'r dyddiadau pan fydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Adroddiad	Bras amcan o'r dyddiad cau
Trefniadau llywodraethu ansawdd	Mehefin 2020
Orthopaedeg	Chwefror 2020
Adolygiad lleol – y testun i'w gadarnhau	Mai 2020

Atodiad 2

Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2019 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £402,146 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fod ar y gweill, yn gyson â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau archwilio ariannol

Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2019 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2018-19. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r deilliant
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn mynd y tu hwnt i reolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallent fynd y tu hwnt iddynt, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; adolygu'r amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer biasau; ac yn gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Cafodd y gwaith archwilio ei gwblhau fel a fwriadwyd ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr wedi mynd y tu hwnt i reolaethau
Ceir risg y bydd y Bwrdd lechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Er bod y Bwrdd lechyd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd gwarged ganddo ar ddiwedd y flwyddyn, ceir nifer o risgiau i'r sefyllfa hon gyda risg ariannol 'achos gwaethaf' o £1m a allai wthio'r Bwrdd lechyd i mewn i ddiffyg. Os bydd y Bwrdd lechyd yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i amlygu'r methiant. Mae'r pwysau ariannol cyfredol ar y	Bydd fy nhîm archwilio yn: monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19; ac yn canolbwyntio'i brofion ar feysydd o fewn y datganiadau ariannol a allai gynnwys bias adrodd	Cadarnhaodd gwaith archwilio fod y Bwrdd lechyd wedi cwrdd â'i ddyraniad adnoddau reffeniw blynyddol a chyrraedd ei darged ariannol i fantoli'r cyfrifon.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r deilliant
<p>Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai barnau ac amcangyfrifon rheolwyr fod â bias mewn ymgais i gyflawni'r ddyletswydd ariannol.</p>		
<p>Mae'r safonau cyfrifyddu newydd IFRS 9 – offerynnau ariannol yn gymwys o 1 Ebrill 2018 ac yn cyflwyno dull seiliedig-ar-egwyddorion newydd ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg namau newydd ar gyfer asedau ariannol yn seiliedig ar golledion a ddisgwylir yn hytrach na cholledion a ysgwyddwyd. Bydd hyn yn arwain at gydnabod colledion credyd disgwylidig yn gynharach a bydd yn effeithio ar y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrifo'i ddarpariaeth drwgddyledion. Mae IFRS 15 referniw o gontractau gyda chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam seiliedig-ar-egwyddorion ar gyfer cydnabod referniw sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor graidd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y modd y cydnabyddir referniw'n darlunio trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl bod â hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r</p>	<p>Bydd fy archwiliad yn asesu effeithiau tebygol safonau IFRS newydd ac yn gwneud gwaith i ymateb i unrhyw risgiau dynodedig o ran camddatganiadau perthnasol.</p>	<p>Cyflawnwyd gwaith archwilio yn ôl y bwriad i asesu effeithiau tebygol y safonau IFRS newydd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn nodi risgiau o ran camddatganiadau perthnasol.</p>

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r deilliant
gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn galw am ddatgeliadau mwy helaeth nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd.		

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru